

Annwyl riant/gofalwr,

25-09-20

Yn dilyn cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o'r coronafeirws (COVID-19) yn ardal Llanelli, mae cyfyngiadau newydd yn cael eu cyflwyno er mwyn lleihau lledaeniad y firws a diogelu iechyd y cyhoedd ar gyfer y bobl sy'n byw yn yr ardal.

Hoffwn eich sicrhau y bydd pob ysgol yn ardal ddiffiniedig Llanelli yn parhau i fod ar agor ac y bydd cludiant ysgol yn gweithredu yn ôl yr arfer. Cadw ysgolion a cholegau ar agor yw ein prif flaenoriaeth o hyd.

Un o'r prif gyfyngiadau yw na chaniateir i bobl fynd i mewn i ardal ddiffiniedig Llanelli na'i gadael heb esgus rhesymol. Fodd bynnag, os ydych yn byw y tu allan i'r ardal ddiffiniedig ond bod eich plentyn yn mynd i'r ysgol/coleg yn yr ardal ddiffiniedig, bydd yn dal i allu mynd i'r ysgol/gallwch chi fynd ag ef i'r ysgol, ar yr amod nad yw'n dangos unrhyw symptomau COVID-19 neu na ofynnwyd iddo hunan ynysu am unrhyw reswm arall. Yn yr un modd, os ydych yn byw yn yr ardal ddiffiniedig ond bod eich plentyn yn mynd i'r ysgol y tu allan i'r ardal ddiffiniedig, mae'n dal i allu mynd i'r ysgol / gallwch fynd ag ef i'r ysgol.

Hoffem eich atgoffa ei bod yn ofynnol i bob disgybl 11 oed a hŷn wisgo gorchudd wyneb ar gludiant ysgol a thrafnidiaeth gyhoeddus a'i bod yn ofynnol i bob disgybl ysgol uwchradd wisgo gorchudd wyneb y tu mewn i fannau cymunedol yr ysgol.

Rydym hefyd yn gofyn i rieni yn ardal ddiffiniedig Llanelli wisgo gorchudd wyneb wrth ollwng a chasglu eu plant o'r ysgol neu unrhyw leoliad addysgol neu leoliad gofal plant arall.

Bydd swyddogion gorfodi'r Cyngor yn cynnal hapwiriadau ym mhob ysgol yn yr ardal ddiffiniedig a byddwn yn gofyn i'n penaethiaid sicrhau bod yr holl gamau y cytunwyd arnynt yn cael eu cymryd, er enghraifft, golchi dwylo, systemau unffordd, glanhau ac ati.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o Gwestiynau Cyffredin, a gwirio a ydych yn byw yn yr ardal ddiffiniedig drwy fynd i'n gwefan [sirgar.llyw.cymru/cyfyngiadaulleol](http://sirgar.llyw.cymru/cyfyngiadaulleol)

Rydym wedi gweld nifer fach o achosion positif yn ein hysgolion ac rwy'n deall bod rhieni yn pryderu ynghylch hyn. Fodd bynnag, hoffwn eich sicrhau mai achosion unigol yw pob un o'r rhain a bod y broses Profi, Olrhain, Diogelu yn effeithiol.

Mae'r broses o brofi ac olrhain cysylltiadau yn rhan o'r 'normal newydd' a lle mae ysgolion yn dilyn y canllawiau hyn yn ofalus, nid oes rheswm dros bryderu.

Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb am gadw ein hunain ac eraill yn ddiogel a dilyn y canllawiau cenedlaethol ynghylch cadw pellter cymdeithasol a gorchuddion wyneb, hylendid da, hunan ynysu a phrofi. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar y daflen amgaeedig.

Diolch ichi am eich cefnogaeth barhaus. Iechyd a diogelwch staff a disgyblion yw ein prif flaenoriaeth ac mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i geisio atal y firws gymaint â phosibl.

Yn gywir  
Gareth Morgans

**Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc**

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,  
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP  
Director of Education & Children's Services,  
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English